(5) Os na fyddai'r cyfraniad, o ganlyniad i'r dosrannu o dan is-baragraff (4), yn cael ei ddileu drwy ei gymhwyso mewn perthynas â dyfarniad statudol y myfyriwr cymwys, cymhwysir gweddill y cyfraniad yn lle hynny—

(i) yn gyntaf mewn perthynas â'r dyfarniad statudol lleiaf (neu bob un dyfarniad statudol o'r fath) y caniateir i'r cyfraniad fod yn gymwys iddo; a

(ii) yna, yn nhrefn gynyddol maint, mewn perthynas â phob dyfarniad statudol sy'n weddill ac y caniateir i'r cyfraniad fod yn gymwys iddo, hyd oni ellir dosrannu balans y cyfraniad yn gyfartal heb fod unrhyw ran ohono'n weddill neu hyd oni na fydd yn weddill unrhyw ran o unrhyw ddyfarniad statudol na chymhwyswyd y cyfraniad iddi.

(6) Os —

(a) oes partner gan riant y myfyriwr cymwys yr asesir ei incwm o dan yr Atodlen hon;

(b) bydd cyfraniad yn cymryd i ystyriaeth incwm gweddilliol y rhiant hwnnw'n daladwy mewn perthynas â mwy nag un myfyriwr cymwys sy'n blentyn i naill ai'r rhiant hwnnw neu i'w bartner; a

(c) na fydd y swm sy'n daladwy mewn perthynas â phob myfyriwr cymwys yr un fath yn mhob achos,

cyfrifir y cyfraniad mewn perthynas â phob myfyriwr cymwys o dan is-baragraff (7).

(7) Os yw is-baragraff (6) yn gymwys, mae'r cyfraniad mewn perthynas â myfyriwr cymwys yn swm hafal i'r cyfraniad a gyfrifir o dan baragraff 8 neu 9 wedi'i rannu â nifer y myfyrwyr cymwys y cyfeirir atynt ym mharagraff (b) o is-baragraff (6) y mae cyfraniad yn daladwy mewn perthynas â hwy ac os na ddiddymir y cyfraniad drwy ei gymhwyso mewn perthynas â dyfarniad statudol y myfyriwr cymwys, cymhwysir gweddill y cyfraniad yn yr un modd ag yn is-baragraff (5) i ddyfarniad statudol perthnasol y myfyrwyr cymwys ar eu haelwyd berthnasol.

(8) Os—

(a) bydd cyfraniad yn cymryd i ystyriaeth incwm gweddilliol rhiant myfyriwr cymwys yn daladwy mewn perthynas â mwy nag un myfyriwr cymwys sy'n blentyn i'r rhiant hwnnw neu i bartner y rhiant hwnnw; a

(b) nad yw'r swm sy'n daladwy mewn perthynas â phob myfyriwr cymwys yr un fath ym mhob achos oherwydd bod rhai o'r myfyrwyr cymwys yn fyfyrwyr cymwys o dan yr hen drefn a rhai yn fyfyrwyr cymwys o dan y drefn newydd,

cyfrifir y cyfraniad mewn perthynas â myfyriwr cymwys o dan is-baragraff (9).

(9) Pan fo is-baragraff (8) yn gymwys, bydd y cyfraniad mewn perthynas â myfyriwr cymwys yn swm hafal i'r cyfraniad a gyfrifir o dan baragraff 8 neu 9 wedi'i rannu â nifer y myfyrwyr cymwys y cyfeirir atynt ym mharagraff (a) o is-baragraff (8) y mae cyfraniad yn daladwy mewn perthynas â hwy a phan na ddiddymir y cyfraniad drwy ei gymhwyso mewn perthynas â dyfarniad statudol y myfyriwr cymwys, cymhwysir gweddill y cyfraniad yn yr un modd ag yn is-baragraff (5) i ddyfarniadau statudol perthnasol y myfyrwyr cymwys eraill o dan yr hen drefn pan fo'r myfyriwr cymwys yn fyfyriwr cymwys o dan yr hen drefn ac i grantiau statudol perthnasol y myfyrwyr cymwys eraill o dan y drefn newydd pan fo'r myfyriwr cymwys yn fyfyriwr cymwys o dan y drefn newydd.

(10) Pan fo cyfraniad sy'n cymryd i ystyriaeth incwm gweddilliol rhiant y myfyriwr cymwys yn daladwy mewn perthynas â mwy nag un o blant y rhiant hwnnw neu bartner y rhiant hwnnw, os oes partner, a bod incwm gweddilliol unrhyw fyfyriwr cymwys o'r fath yn fwy na dim, cyfrifir y cyfraniad mewn perthynas â phob myfyriwr cymwys yn unol â'r is-baragraffau canlynol—

(a) cyfrifir y cyfraniad mewn perthynas â'r myfyriwr cymwys heb gyfeirio at baragraff 4 ond fel arall yn unol â'r Atodlen hon ac fe'i dosrennir rhwng pob myfyriwr cymwys yn unol â'r paragraff hwn;

